Perfformiad byw o gerddoriaeth a geiriau

Addoliad cynulleidfaol

Ar hyn o bryd, cyn belled mai gwasanaeth o addoliad yw'r digwyddiad, ac nid cyflwyniad neu berfformiad, nid oes angen talu unrhyw ffioedd hawliau perfformio. Fodd bynnag mae'r rheolau ynglŷn â deunydd printiedig a deunydd wedi'i recordio, fel nodir yn gynharach, yn parhau yn ddilys.

Perfformio gweithiau â hawlfraint arnynt tu allan i 'Oedfaon o Addoliad'

Os mai perfformiad yw'r digwyddiad gyda'r gynulleidfa yn gwrando ar grŵp canu, band, côr, neu gyflwyniad cerddorol; rhaid talu breindaliadau perfformio os oes hawlfraint ar y gwaith. Dylech nodi fod hawl cyfreithiol gan y PRS (*Performing Rights Society*) i hawlio taliad priodol bob tro.

Y Rhyngrwyd

Mae'r Rhyngrwyd a'r defnydd o ddeunydd sydd wedi'i gynhyrchu ar ffurf electronig (fel CD-ROM) wedi arwain i lu o gwestiynau a phryderon ychwanegol ynglŷn â hawlfraint.

Os ydych am roi deunyddiau ar wefan, rhaid cael caniatâd yr un sy'n berchen yr hawlfraint neu ei asiant, sydd â hawl i ganiatáu neu wrthod trwydded. Mwy na thebyg byddant yn gosod rhai amodau a thelerau. Dylech sylweddoli fod darparu geiriau a/neu gerddoriaeth ar wefan, ar gyfer eraill, heb ganiatâd, yn gyfystyr â dwyn. Byddai hyn yn wir hefyd am y rhai sy'n ei lawr-lwytho o'ch safle gwe.

Wrth ddefnyddio deunydd sydd wedi cael ei ddarparu ar CD-ROM mae'n bwysig eich bod yn ei ddefnyddio yn unol ag amodau'r drwydded a dderbynnir wrth brynu'r cynnyrch.

Mae'r rhai sydd biau'r hawlfraint yn dymuno hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg newydd. Fodd bynnag dylai pawb gydnabod perchnogaeth a gwerth caneuon ac emynau, fel bod yr awduron yn derbyn y tâl dyledus am eu gwaith, i'w galluogi i ddarparu deunydd newydd.

Canllaw yn unig yw'r wybodaeth yma ac nid yw, ar unrhyw gyfrif, yn honni bod yn ddiffiniad clir a phenodol o'r ddeddf hawlfraint. Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau fod yr wybodaeth yma yn gywir, ni all y CMPA dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriad neu wybodaeth sydd ar goll.

Cyfeiriadau defnyddiol

Christian Copyright Licensing (Europe)

Chantry House
22, Upperton Road
Eastbourne
BN21 1BF
Ffôn: 01323 417711
Ffacs: 01323 417222

Mechanical Copyright Protection Society

29-33 Berners Street
Llundain
W1P 4AA
Ffôn: 020 8769 4400
Ffacs: 020 8378 7300

Performing Right Society

29-33 Berners Street
Llundain
W1P 4AA
Ffôn: 020 7580 5544
Ffacs: 027 7306 4455

Phonographic Performance Ltd.

1 Upper James Street
Llundain
W1F 9DE
Ffôn: 020 7534 1000
Ffacs: 020 7534 1111

Canllawiau wedi'u cyhoeddi gan:

Christian Music Publishers Assoc.

CHRISTIAN MUSIC PUBLISHERS ASSOCIATION (EUROPE) LTD.

P.O.Box 263, Croydon, Surrey CR9 5AP

Hawlfraint:

Adnodd Addoli

Beth yw 'Hawlfraint'?

Pwrpas 'Hawlfraint' yw diogelu perchnogaeth gyfreithiol gwaith creadigol awduron, cyfansoddwyr, artistiaid, ffotograffwyr, cynhyrchwyr ffilm, cyhoeddwyr, ac eraill tebyg.

Y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatent 1988 *(Copyright, Designs and Patents Act 1988)* yw'r ddeddfwriaeth hawlfraint yn y DU. O bryd i'w gilydd mae yna ddiwygio arni wrth i ddeddfau newydd gael eu pasio yn y Senedd. Mae deddfau hawlfraint yn galluogi awduron i ennill bywoliaeth o'u gwaith, gan barhau i ddarparu gwaith ar gyfer eraill i'w fwynhau. O bryd i'w gilydd bydd yr awdur yn pennu neu'n trwyddedu ei hawliau i gyhoeddwr. Gall y cyhoeddwr, wedyn, drwyddedu eraill i ddefnyddio'r gwaith. Mae hawl gan berchennog yr hawlfraint i atgynhyrchu'r gwaith yn brintiedig neu mewn fformat gwahanol, ar gyfer darlledu, recordio, addasu a diwygio, i'w berfformio, a'i arddangos. Mae hawl gan berchennog yr hawlfraint i drwyddedu eraill i wneud hyn hefyd..

Mae deddfau hawlfraint tebyg i'w cael bron ym mhob gwlad arall.

Gweithiau printiedig/hyd hawlfreintiau.

Mae bron popeth sy'n brintiedig wedi'i ddiogelu gan y ddeddf hawlfraint.

Gall hawlfraint fodoli'n ar y geiriau eu hunain, cyfieithiadau ac addasiadau o eiriau, melodïau, harmoneiddio, trefniant cerddoriaeth, ac yn y fersiwn printiedig o lyfr (cerddoriaeth a geiriau).

Mae hawlfraint yn ddilys yn y DU hyd at 70 mlynedd ar ôl marwolaeth y perchennog (awdur, cyfansoddwr, cyfieithydd, addasydd, golygydd, ayb). Mae hawlfraint ar y ffurf brintiedig yn ddilys am 25 mlynedd ar ôl dyddiad ei gyhoeddi. Hyd yn oed ble mae yna eitem hen iawn, mae'n debygol fod yna hawlfraint newydd ar y fersiwn printiedig newydd o'r geiriau a'r gerddoriaeth, yn ogystal â'r gwaith dylunio (sef cysodi'r geiriau a'r gerddoriaeth).

Mewn achos o gyhoeddiad printiedig o emynau a chaneuon, y cyhoeddwr sydd yn berchen hawlfraint y cynllun printiedig, ond fe all fod y geiriau a'r gerddoriaeth dan reolaeth eraill (ac wedi'i drwyddedu ar gyfer ei gyhoeddi yn y casgliad hwnnw). Dyna pam mae'n bwysig edrych ar gydnabyddiaeth pob eitem, yn unigol.

Talu breindaliadau

Mae'r rhan fwyaf o ganeuon addoli a llawer o emynau wedi'u diogelu gan hawlfraint. Rhaid derbyn caniatâd ysgrifenedig gan berchennog yr hawlfraint ar gyfer unrhyw waith, cyn ei ddefnyddio. Mae hyn yn dilyn ar gyfer gwneud copïau, perfformio'r gerddoriaeth neu'i recordio. Efallai y bydd rhaid talu breindal.

Geiriau - Printio ac Atgynhyrchu

Llyfrau emynau a chaneuon, taflenni gwasanaeth, a thaflenni uwchdaflunydd, ayb

Mae'r rhan helaeth o gyhoeddwyr sy'n berchen hawlfraint emynau a chaneuon addoli yn caniatáu gwneud copïau gyda rhai rheolau syml:

- Nad ydynt ar gyfer ailwerthu.
- Fod yr wybodaeth hawlfraint gywir wedi'i gynnwys ar ddechrau neu ddiwedd pob eitem.
- Fod y ffi a osodwyd gan y cyhoeddwr yn cael ei dalu.

Taflenni arbennig – priodasau a chladdedigaethau ayb

Gan fod priodasau a chladdedigaethau yn ddigwyddiadau arbennig mae'n amrywio os bydd breindaliadau yn cael eu hawlio. Ym mhob achlysur rhaid gofyn am ganiatâd.

Copïau ar gyfer pobl ag anghenion gweld

O dan ddeddf Hawlfraint (Pobl ag Anghenion Gweld) 2002 *[Copyright (Visually Impaired Persons) Act 2002)]*, gellir gwneud copïau pwrpasol ar gyfer rhai ag anghenion arbennig (e.e. print mawr neu *braille*) heb dorri unrhyw reolau hawlfraint.

Cerddoriaeth - Printio ac Atgynhyrchu

Os mai eich bwriad i'w cael un copi printiedig o'r gerddoriaeth ar gyfer gwneud copïau ychwanegol, a hynny heb ganiatâd, gallech fod yn torri'r gyfraith.

Cyn dechrau gwneud copïau dylid cael caniatâd perchennog yr hawlfraint o'r darn penodol o gerddoriaeth. Ni ddylid cymryd yn ganiataol y rhoddir caniatâd gan berchennog yr hawlfraint.

Printio masnachol

Os ydych am brintio cerddoriaeth neu gyhoeddiad ar gyfer ei ailwerthu, bydd cyhoeddwyr yn gofyn gan amlaf am wybodaeth fwy manwl, gan gynnwys y pris gwerthu, y nifer i'w printio, ac ar gyfer pwy mae'r cyhoeddiad.

Atgynhyrchu sgoriau cerddorol (addasiadau).

Os ydych am atgynhyrchu eich trefniant eich hun, efallai ar gyfer gwahanol offerynnau, a'i fod ar gyfer defnydd lleol yn unig, nid yw unrhyw gyhoeddwr yn debygol o wrthwynebu. Ond, rhaid eich bod wedi gofyn, yn y lle cyntaf, am ganiatâd penodol. Bydd rhai am weld copi o'r trefniant ymlaen llaw, a bydd eraill yn gofyn am dâl. Dylech nodi fod hawlfraint y gwaith gwreiddiol, ym mhob achos, yn aros yn nwylo'r perchennog, a bydd eich hawliau chi fel trefnydd yn cael ei neilltuo i'r perchennog. Nid oes gennych unrhyw hawliau i'r trefniant (oni bai fod hawlfraint y gerddoriaeth wreiddiol wedi dod i ben).

Copïau ar gyfer pobl ag anghenion gweld

Mae'r un yn wir am gerddoriaeth, fel nodir am y geiriau yn gynharach. Fodd bynnag dylech nodi na ellir caniatáu recordiad o berfformiad cerddorol gan nad yw'n cael ei gydnabod fel fformat amgenach i'r fersiwn printiedig.

Dewis arall ar gyfer defnydd di-fasnachol mewn eglwysi ac ysgolion.

Gellir cael trwydded ar gyfer eglwysi ac ysgolion i atgynhyrchu geiriau, a geiriau/cerddoriaeth nifer fawr o emynau a chaneuon oddi wrth *Christian Copyright Licensing (Europe)* (CCLE). Rhaid adnewyddu'r drwydded yn flynyddol.

Mae'r drwydded hon *(The Church Copyright Licence)* yn galluogi eglwysi, ysgolion a sefydliadau eraill i atgynhyrchu geiriau nifer o emynau a chaneuon yn y DU ac Iwerddon. Mae hyn ar yr amod eu bod ar gyfer eu rhannu'n rhad ac am ddim o fewn yr eglwys. Mae'r drwydded *(The Music Reproduction Licence)* ar gyfer cerddoriaeth o lyfrau cerddoriaeth penodol. Os ydych yn bwriadu ailwerthu'r llyfrynnau neu eu cynnwys mewn digwyddiad ble mae angen talu am fynediad, mae'n rhaid cael caniatâd yn uniongyrchol oddi wrth y cyhoeddwr.

Mae'r *Christian Music Publishers Association* yn gefnogol iawn i'r *Church Copyright Licence* a'r *Music Reproduction Licence*, ac yn cynnwys rhestr o berchnogion hawlfreintiau a'u gweithiau Gellir derbyn manylion oddi wrth y CCLE, yn y cyfeiriad a nodir drosodd.

Recordio Cerddoriaeth a Geiriau

Recordio oedfaon neu gyngherddau drwy ddefnydd sain neu fideo.

Dylid sicrhau ymlaen llaw, ymhob achos, fod gennych y drwydded gywir ar gyfer recordio drwy sain, fideo, CD neu DVD unrhyw eiriau neu gerddoriaeth sydd dan hawlfraint..

Recordiadau di-fasnachol.

Y sefydliad sy'n gyfrifol am gynrychioli'r rhan fwyaf o berchnogion hawlfraint yn y DU; a thrwy gysylltiad â sefydliadau eraill; yn y rhan helaeth o'r byd, yw *The Mechanical-Copyright Protection Society* (MCPS). Mae'r MCPS wedi apwyntio'r CCLE fel ei brif asiant i drwyddedu hawliau recordio yn yr eglwys ar gyfer defnydd di-fasnachol

Mae'r trefniant arbennig hwn rhwng y MCPS a'r CCLE yn rhan o'r drwydded, *Church Copyright Licence* (gweler yn gynharach). Mae fwyaf buddiol i'r eglwysi hynny sy'n recordio gwasanaethau a rhannu nifer bach ohonynt ymysg y gynulleidfa fel rhan o'r gwaith gweinidogaethu. Mae recordio priodasau, bedyddiadau a chladdedigaethau hefyd, yn rhan o'r cytundeb hwn. Am wybodaeth bellach cysylltwch â'r CCLE.

Recordiadau masnachol

Nid yw recordiadau ar gyfer eu gwerthu neu ddefnydd masnachol yn rhan o'r cytundeb uchod. Rhaid gwneud ymholiadau ar gyfer trwyddedu i'r MCPS.

Deunydd wedi'i recordio ymlaen llaw

Phonographic Performance Limited (PPL), sy'n cynrychioli a diogelu hawliau perchnogion; fel arfer cwmnïau recordiau, a'u hawl i'r recordiad sain, sef eu hawl ffonograffig. Nid oes hawl gan neb i gopïo recordiau, CD, na thapiau, heb ganiatâd unigol perchnogion y gerddoriaeth, y geiriau, a'r recordiad. Os ydych am olygu cerddoriaeth, sydd dan hawlfraint, i mewn i fideo, rhaid cael y drwydded *Private Function Post Production Licence* ynghyd â thrwydded benodol o'r PPL ar gyfer golygu'r recordiad sain.